



## **Amcanion Lles BGC Abertawe: cynnydd hyd yn hyn**

Dr Alan Netherwood

Gorffennaf 2017

### **1. Cefndir**

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys adroddiad byr gan Netherwood Sustainable Futures i gefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wrth iddo ddewis ei amcanion ar gyfer ei Gynllun Lles mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD). Mae'n darparu trosolwg o'r gwaith a wnaed gan bartneriaid mewn tri gweithdy yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2017<sup>12</sup> a chyfuniad a dadansoddiad byr o'r deunydd sy'n dod i'r amlwg o'r gweithdai hyn. Darparodd NSF gefnogaeth i Ddinas a Sir Abertawe i gynllunio a chyflwyno'r gweithdai hyn ac adrodd amdanynt.<sup>3</sup>

1.2 Nod y gweithdai oedd archwilio:

- blaenoriaethau strategol posib ar gyfer y BGC
- lefel uchelgais y BGC
- Meysydd gwaith lle byddai gweithredu ar y cyd gan y BGC yn ychwanegu gwerth at ymagweddau presennol
- materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r asesiad lles a gwaith arall rhanddeiliaid allweddol a allai gyfeirio pennu amcanion

ac o ganlyniad i hyn, nodi

- themâu allweddol lle mae angen ymyriad gan y BGC
- amcanion posib ar gyfer BGC Abertawe

1.3 Roedd pob gweithdy'n cynnwys: trosolwg o'r hyn a oedd yn ofynnol o dan y Ddeddf; trafodaeth am yr her ar gyfer gweithredu ar y cyd gan y BGC; myfyrio ar yr asesiad lles; a chyfres o ymarferion a oedd yn ceisio egluro sefyllfa'r BGC mewn perthynas â blaenoriaethau strategol a lle gallai gweithredu ar y cyd fod o'r budd mwyaf. Roedd trafodaeth am dueddiadau'r dyfodol hefyd yn llywio pob gweithdy. Rhestrir yr

---

<sup>1</sup>Gweithdy grŵp craidd y BGC 15 Mehefin 2017.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe 3 Gorffennaf 2017.

Grŵp Partneriaeth BGC Abertawe 11 Gorffennaf

<sup>2</sup>Defnyddiwyd data hefyd o weithdy i ddinasyddion a gynhaliwyd gan DASA ar 30 Mai 2017.

<sup>3</sup>Mae gan yr awdurdod amrywiaeth eang o brofiad ymgynghoriaeth wrth helpu'r sector preifat ac eraill i ddatblygu eu syniadau ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys eu cyfrifoldebau corfforaethol, eu llywodraethu a'u gwaith partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i gynghorau, Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, CNC, Byrddau Iechyd Prifysgolion, Llywodraeth Cymru, CLILC, ICC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n archwilio llywodraethu a chynladwyedd.

ymarferion a wnaed gan y cyfranogwyr yn Atodiad A. Mae cyflwyniadau a ddefnyddiwyd i ysgogi trafodaeth ar gael gan Ddinas a Sir Abertawe.

#### 1.4 Mae'n bwysig nodi dau fater:

- dylai'r broses hon *agor* trafodaeth ar ba rôl y gallai fod gan y BGC wrth wella'i waith ar draws cymunedau Abertawe. Roedd yn ceisio archwilio lle bu consensws a lle cafwyd gwahaniaethau barn ac ymagwedd, ar *yr hyn* y dylid cydweithio arno i ychwanegu gwerth at weithgaredd presennol.
- roedd yr 'agor' hwn yn fwriadol i helpu i nodi blaenoriaethau strategol allweddol, deall uchelgais a chael barn nifer mawr o bobl cyn trafod amcanion penodol.

1.5 Mae'r dadansoddiad isod yn ceisio adlewyrchu'r trafodaethau hyd yn hyn, ddarparu rhai arsylwadau ar y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ac yn gwneud argymhellion i'r BGC ar gyfer gwaith cyfredol ar bennu amcanion.

## 2. Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg

2.1 Trafododd y grŵp craidd nifer o feysydd datblygol lle gallai'r gweithredu ar y cyd wella cymunedau a'u rhaglenni gwaith presennol ac ychwanegu gwerth atynt. Archwiliwyd a datblygwyd y rhain wedyn gan CGGA a'r Grŵp Partneriaeth (gweler 2.2 a 2.3). Mae'r ffordd o feddwl hon gan y grŵp craidd yn darparu cyfres o themâu allweddol *posib* i weithredu arnynt er mwyn datblygu amcanion penodol yn ei gynllun lles. Roedd y themâu a oedd yn dod i'r amlwg o'r grŵp craidd yn cynnwys:

Balchder	Datblygu ymdeimlad o falchder gyda chymunedau a dinasyddion Abertawe.
Y Fargen Ddinesig ac Isadeiledd	Gwneud yn fawr o'r fargen ddinesig ar gyfer dinasyddion Abertawe ac ymagwedd gydlynol at gynllunio isadeiledd Abertawe.
Blynyddoedd Cynnar	Cydlynu ymagweddau ar waith ataliol ar draws Abertawe.
Cydlyniant Cymunedol	Datblygu cymunedau cydlynus (a chadarn) ar draws Abertawe.
Cyfalaf Cymdeithasol/Newid Ymddygiad	Deall cyfalaf cymdeithasol Abertawe ac adeiladu arno a datblygu hunan-ddibyniaeth ar gyfer dinasyddion a chymunedau Abertawe.
Heneiddio'n Dda	Cydlynu ymagweddau at waith ar gyfer dinasyddion hŷn a chynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.
Newid yn yr hinsawdd/Lleihau carbon	Gweithio ar gadernid hinsawdd ar gyfer cymunedau sy'n agored i berygl a datblygu isadeiledd carbon isel.
Gweithio ar y Cyd	Deall yr hyn mae partneriaid yn ei gynnig a lle gall gweithredu ar y cyd wneud y gwahaniaeth mwyaf.

2.2 Ychwanegwyd at restr y grŵp craidd gan y sector cymunedol a gwirfoddol. Roedd meysydd a godwyd gan y grŵp hwn yn ogystal â'r rhai uchod yn cynnwys:

- Perthyn (fel rhan o falchder),
- Dysgu mwy am ei gilydd (fel rhan o weithio ar y cyd),
- Gallu cydgynhyrchiol (fel rhan o weithio ar y cyd),
- Pobl yn gallu dweud eu dweud.

Dyma'r materion penodol a nodwyd ar gyfer gwell gweithredu ar y cyd:

- Addysg (fel mater trawsbynciol),
- Teuluoedd (fel rhan o'r blynyddoedd cynnar a themâu eraill),
- Tai.

**2.3** Ar ôl archwilio'r materion posib hyn ar 15 Gorffennaf, ychwanegodd y Grŵp Partneriaeth faes bioamrywiaeth hefyd - maes lle'r oedd y rhai a fynychodd y gweithdy'n credu y gallai gwell gweithredu ar y cyd ychwanegu gwerth ledled Abertawe. Nodwyd lechyd Meddwl hefyd fel mater allweddol, ond prin oedd y manylion a ddarparwyd gan fynychwyr y gweithdy ynghylch yr hyn y byddai'n ei olygu i'r bartneriaeth, pa weithredu ar y cyd allai ychwanegu gwerth at ymagweddau presennol neu ymyriadau ychwanegol a allai fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, efallai byddai'r BGC yn dymuno ystyried a oes angen iddo feddwl mwy ynghylch a ddylid cynnwys cydweithio ar y mater strategol a gwasanaeth hwn ochr yn ochr â'r blaenoriaethau eraill y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad hwn.

Mae'r rhestr isod yn darparu'r elfen 'beth' y mae'r BGC yn credu y *gallai* weithio arno, a meysydd i'w hystyried ar gyfer pennu amcanion.

Balchder/Perthyn	Tai
Bargen Ddinesig ac Isadeiledd	Bioamrywiaeth
Blynyddoedd Cynnar	Sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd
Cydlyniant Cymunedol	(Gweithio ar y cyd, dysgu am ein gilydd, a phobl yn cael dweud eu dweud)
Cyfalaf Cymdeithasol/Newid	
Ymddygiad	
Heneiddio'n dda	
Newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon	

2.4 Mae'n bwysig nodi mai'r consensws oedd y gallai'r *holl* feysydd hyn elwa o well gweithredu ar y cyd ledled Abertawe. Ni ddylai'r canfyddiad hwn gael ei golli yn y gwaith o bennu amcanion a chynllun, a allai flaenoriaethu rhai o'r materion hyn ar gyfer y cynllun. Mae'r dystiolaeth o'r gweithdai'n awgrymu:

- bod angen i weithio mewn partneriaeth wella ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi a chyflwyno yn Abertawe.
- bod cydnabyddiaeth a pharodrwydd gan gyfranogwyr i wella gwaith partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â lles.
- bod Deddf LICD yn darparu cyfle i fynd i'r afael â gwendidau ac adeiladu ar gryfderau yn y ffordd yr eir i'r afael â lles yn Abertawe yn y meysydd polisi hyn.
- bod gan y BGC a'i bartneriaid rôl ganolog wrth fynd i'r afael â'r materion hyn yn eu gwaith.

2.5 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi rhywfaint o syniad am farn cyfranogwyr ynghylch yr hyn maen nhw'n ei *olygu* mewn gwirionedd gan y themâu hyn, eu harsylwadau ar y 'systemau' sy'n dylanwadu arnynt a'r consensws<sup>4</sup> sydd wedi dod i'r amlwg yn y gweithdai. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi cipolwg gwerthfawr i'r BGC o farn cyfranogwyr am:

- *yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.*
- *lle byddai cydweithio ychwanegol o gymorth yn eu barn hwy*
- *eu syniadau am yr hyn a fyddai'n amcan da.*

---

<sup>4</sup>Sylwer bod nodiadau llawn ar gael ar bob gweithdy. Mae'r adrannau hyn yn darparu trosolwg o'r materion allweddol sy'n dod i'r amlwg dan bob thema a materion cyffredin a godwyd yn y tri digwyddiad.

Dylai hyn hysbysu'r BGC ynghylch natur, maint ac uchelgais posib yr amcanion ar gyfer y cynllun.

Sylwer mai'r ychwanegiadau mewn *llythrennau italig* yw cyd-ddisgrifiad NSF o'r arsylwadau. Gallai'r rhain lywio trafodaeth ar amcanion posib.

## 2.6 BALCHDER A PHERTHYN

Daeth y materion cyffredin canlynol i'r amlwg o'r drafodaeth am Falchder a Pherthyn yn y gweithdai - lle'r oedd ffocws arbennig ar amcanion a oedd yn canolbwyntio ar asedau Abertawe a sut gallant fynd i'r afael â rhai o'r diffygion a'r problemau yng nghymunedau Abertawe.

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar FALCHDER A PHERTHYN**

*Datblygu ymdeimlad o falchder gyda chymunedau a dinasyddion Abertawe*

- Defnyddio iaith gadarnhaol am Abertawe a Chymru.
- Cyfathrebu ar y cyd
- Ffocws ar falchder o le.
- Cymuned lle, grŵp, cymuned treftadaeth.
- Cymunedau'n teimlo eu bod yn berchen ar eu lleoedd cymunedol a'u manau gwyrdd cymunedol eu hunain.
- Deall ein hymdeimlad o berthyn yn yr amgylchedd naturiol a gwerthfawrogi amgylchedd a bywyd gwylt amrywiol Abertawe.
- Datblygu sefydliadau cymdeithasol a rhwydweithiau mewn cymunedau, eu huno, cyflwyno pobl iddynt, rhoi rolau i bobl.
- Ymgyrchoedd ar draws pynciau, balchder mewn amgylcheddau lleol, balchder yn ein plant, balchder yn siarter Abertawe.
- Deall cymunedau cyfryngau cymdeithasol a'u heffaith.
- Annog pobl a'u cefnogi i ofalu am eu cymdogaethau eu hunain a'u gwella.
- Datblygu ymdeimlad a rennir o'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni - cenhadaeth.
- Statws Dinas Diwylliant erbyn 2021 a chynllunio ar gyfer y cyfnod wedi hynny.
- 'Creu' balchder mewn lle sy'n gydlynys ac yn rhagweithiol.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt!

## 2.7 BARGEN DDINESIG AC ISADEILEDD

Daeth y materion cyffredin canlynol i'r amlwg yn dilyn trafodaeth ar y Fargen Ddinesig ac Isadeiledd, a fydd yn cael dylanwad mawr ar les yn Abertawe a ledled de-orllewin Cymru. Roedd yn amlwg bod awydd mawr yn y gweithdai i weld cysylltiad cryf rhwng y BGC a gweithgarwch borgen ddinesig er mwyn gwneud yn fawr o'r buddsoddiad ar gyfer dinasyddion Abertawe.

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar y Fargen Ddinesig ac Isadeiledd**

*Gwneud yn fawr o'r fargen ddinesig ar gyfer dinasyddion Abertawe ac ymagwedd gydlynol at gynllunio isadeiledd Abertawe*

- Bod yn fwy eglur ynghylch yr hyn yw'r Fargen Ddinesig i'n dinasyddion - cyfranogaeth - tryloywder a manteision. Newid hyn yn bethau gwirioneddol i ddinasyddion.
- Datblygu rhaglen waith ar y cyd rhwng Bwrdd y Fargen Ddinesig a'r BGC.
- Cydweithredu i gyflwyno isadeiledd gwyrdd fel pwynt gwerthu unigryw Abertawe a sicrhau bod yr holl brosiectau isadeiledd yn cynnwys isadeiledd gwyrdd.
- Sicrhau na chollir cyfleoedd i wneud yn siŵr bod Abertawe'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Sicrhau bod caffael yn gynaliadwy ac yn lleol gyda chymalau budd cymdeithasol/ddod o hyd i bethau'n lleol.
- Datblygu'r gweithlu a sgiliau i gefnogi cyfleoedd o'r Fargen Ddinesig. Sicrhau bod addysg ar bob lefel yn darparu unigolion cymwys i gyflwyno'r fargen. Gwybod yr hyn sydd ei angen.
- Annog buddsoddiad gan fusnesau preifat i annog yr economi leol e.e. defnyddio siopau gwag i annog canolfannau datblygu sgiliau/busnesau newydd.
- Ehangu trafodaeth ar fuddsoddiad mewn isadeiledd i bartneriaid ehangach. Cynnwys partneriaid ac ymgynghori â hwy'n eang ar y cam dylunio cynnar i fwyafu cyfleoedd ar gyfer cydweithio ac arloesedd e.e. cyn cytundeb 104.
- Buddsoddiad isadeileddol wedi'i lunio o gwmpas y gymuned a phobl, isadeiledd glas (iechyd) i fwyafu ansawdd bywyd ac iechyd.
- Mwyafu cyfleoedd ar gyfer a thrwy'r fargen ddinesig a buddsoddiad isadeileddol ar gyfer:
  - teithio llesol,
  - Dinas Diwylliant 2021,
  - cydleoli gwasanaethau,
  - cadernid hinsawdd,
  - carbon isel,
  - datblygu diwydiannau creadigol,
  - bioamrywiaeth,
  - manau y gellir byw ynddynt (wedi'u dylunio'n dda) - cydlyniant cymunedol, isadeiledd gwyrdd, economi fywiog (amrywiol),
  - iechyd corfforol a meddwl da i'r rhai y mae eu hincwm yn isel,
  - contractau sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?

## 2.8 BLYNYDDOEDD CYNNAR

Daeth y materion cyffredin canlynol i'r amlwg o drafodaeth am y Blynyddoedd Cynnar yn y gweithdai. Mae llawer o waith ar y blynyddoedd cynnar eisoes ar y gweill, ac mae'n amlwg ei fod wedi chwarae rhan fawr yn y trafodaethau ar bolisiau a phartneriaethau yn Abertawe dros y blynyddoedd diweddar.

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar Ddatblygiad y Blynyddoedd Cynnar**

#### *Ymagweddau cydlynu at waith ataliol yn Abertawe*

- Integreiddio gwasanaethau'r ALL, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector yn gynyddol i ddarparu gwasanaethau cyson ar draws Abertawe gyfan i newid ffocws o ymyriad hwyr i atal.
- Mwy o uchelgais ynghylch ein nodau a'n camau gweithredu wrth fynd i'r afael ag anfantais y Blynyddoedd Cynnar - sy'n rhy ddarniog ar hyn o bryd a lle nad yw'r uchod yn cael eu rhannu.
- Datblygu rhwydweithiau cymdeithasol, cefnogaeth cymheiriaid i rieni, grwpiau/rhwydweithiau cefnogi i rieni a pharatoi ar gyfer magu plant a chefnogaeth perthnasoedd.
- Datblygu dealltwriaeth o gyfleoedd diwylliannol a allai gael effaith [gadarnhaol ar ddatblygiad y Blynyddoedd Cynnar]
- Sicrhau bod gan blant gyfleoedd i gysylltu â'u hamgylchedd naturiol yn eu bywydau bob dydd drwy fannau gwyrdd, a chwarae awyr agored yn yr holl ysgolion a meithrinfeydd.
- Cyfleu neges i'n holl weithwyr i ddechrau gyda'r Blynyddoedd Cynnar.
- Cadernid cymorth i deuluoedd - magu plant, gofalu am eich gilydd, gofalu am aelod diamddiffyn o'r teulu, agwedd o oed cynnar. Neiniau a theidiau
- Partneriaid yn rhoi ffocws ar annog bwydo ar y fron.
- Parhau â'r gwaith blynyddoedd cynnar Dinasoedd Iach.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?

## 2.9 CYDLYNIANT CYMUNEDOL

Daeth y materion cyffredin hyn i'r amlwg o'r drafodaeth ar gydlyniant cymunedol. Mae dehongliad eang gan gyfranwyr ar yr hyn a olygir gan gydlyniant cymunedol. Gallai hyn fod yn faes lle gallai'r BGC weithio'n well i geisio deall a diffinio'n well yr hyn mae partneriaid yn ceisio'i gyflawni yn y maes gwaith hwn.

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar Gydlyniant Cymunedol**

*Datblygu cymunedau cydlynus (a chadarn) ar draws Abertawe*

- Buddsoddi mewn gwydnwch cymunedol i gynyddu cydlyniant cymunedol a lleihau'r galw ar wasanaethau.
- Rhoi llais i bobl - beth fyddai'n gwella cydlyniant eu cymuned yn eu barn nhw.
- Cynyddu dealltwriaeth o'r hyn y mae pawb yn ei wneud/cynnig/a nodau o fewn cymuned.
- Cyflwyno gwasanaethau wedi'u cyd-leoli mewn cymunedau e.e. canolfan waith, llyfrgell
- [Sefydlu] cyllidebau cymunedol.
- [Annog] y gymuned i ymwneud â gwasanaethau.
- Mae angen cydweithredu o ran effaith myfyrwyr yn erbyn anghenion cymunedol "sefydlog"
- Mae bod yn gydlynol yn ymwneud â mwy na mudiad - mae cysylltiadau ehangach â pherthyn.
- Defnyddio asedau [yn well] - llysoedd, prosiectau ar y cyd, digwyddiadau traws-ddiwylliannol, ysgolion i bobl hŷn, helpu plant i ddarllen yn yr ysgol etc.
- Darparu cyfleoedd i gymunedau fod yn gydlynol e.e. manau cymunedol, digwyddiadau, cyfleoedd i bobl ryngweithio.
- Cyfleoedd i gymunedau ddod i nabod ei gilydd e.e. Ein Habertawe/Our Abertawe
- Dathlu amrywiaeth a chefnogi cymunedau amrywiol yn Abertawe.
- Cynyddu rheolaeth pobl dros gyfrifoldeb am eu hadnoddau a'u cyfleusterau lleol.
- Mwy o gamau gweithredu digidol, ffisegol, dynamig i gysylltu cymunedau boed o ran diddordeb neu ddaearyddiaeth.
- Creu cysylltiadau (unigrwydd cymdeithasol a datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau mewn cymunedau lleol).
- Ystyried enghreifftiau arfer gorau mewn manau eraill e.e. syniadau, pobl, lleoedd, rhaglenni.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?



## 2.10 CYFALAF CYMDEITHASOL/NEWID YMDDYGIAD

Daeth y materion cyffredin canlynol i'r amlwg o drafodaeth am gyfalaf cymdeithasol a newid ymddygiad. Mae'r arsylwadau'n awgrymu bod angen gwneud gwaith er mwyn i bartneriaid ddeall y cysyniad o gyfalaf cymdeithasol a'u rolau ar y cyd wrth gynyddu hunanddibyniaeth mewn cymunedau. Mae hyn yn faes sy'n gyffredin i bartneriaid y BGC. A yw hwn yn faes lle mae angen iddynt ddatblygu'r sgiliau a deall yr hyn yw cyfalaf cymdeithasol yn Abertawe? A fyddai peth gwaith ar y cyd ar fapio asedau'n helpu partneriaid i ddeall yr adnodd cymdeithasol sydd ar gael i fynd i'r afael â lles?

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar gyfalaf cymdeithasol a newid ymddygiad**

*Deall cyfalaf cymdeithasol Abertawe ac adeiladu arno a datblygu hunanddibyniaeth ar gyfer dinasyddion a chymunedau Abertawe*

- Dinas lle mae pobl yn credu'n gryf ynddynt hwy eu hunain a dinas Abertawe.
- Adeiladu ar adnoddau cymunedol presennol.
- Adeiladu ar yr hyn sy'n bodoli eisoes - cefnogi asedau'r grŵp presennol, peidio â chreu ABCCh newydd.....
- Ymagwedd sy'n seiliedig ar wydnwch cymunedol ac unigol.
- Buddsoddi mewn datblygiad a newid diwylliannol - perthyn a chyfranogi.
- Gall cyrff cyhoeddus geisio dylanwadu ar/hysbysu staff - cyfran fawr o'r holl weithlu.
- Sicrhau bod cyfleusterau yno i ddinasyddion i newid ymddygiad e.e. - cludiant cyhoeddus da, llwybrau beicio diogel, mynediad i le gwyrdd.
- Rhoi'r pŵer i gymunedau ond rheoli cymunedau fel nad ystyrir hyn yn 'dorri'n ôl' neu osgoi cyfrifoldeb.
- Hyrwyddo annibyniaeth fel mater o frys: Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n dal yn rhy nawddogol.
- Lleihau dibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus drwy fynd i'r afael â diwylliant dibyniaeth.
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddatblygu cymunedau cadarn.
- Adnabod yr hyn rydym yn ei olygu wrth 'cymunedau', maent oll yn wahanol.
- Cefnogi annibyniaeth - gwaith ataliol.
- Hyrwyddo diwylliant a'r celfyddydau.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?

## 2.11 HENEIDDIO'N DDA

Daeth y sylwadau canlynol i'r amlwg o'r drafodaeth am Heneiddio'n Dda. Dengys yr arsylwadau fewnwelediad gwych i faterion strategol, ymarferol ac amlochrog sydd ynghlwm wrth gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. Roedd hyn yn ymddangos fel ffocws a oedd yn seiliedig ar le wrth gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, gan baratoi'r boblogaeth ar gyfer heneiddio, yn ogystal â chanolbwyntio ar wasanaethau. A oes angen i bartneriaid archwilio'u tir cyffredin o ran y mater hwn hefyd?

### Arsylwadau o weithdy'r BGC ar Heneiddio'n Dda

*Cefnogi pobl i gynllunio ar gyfer y dyfodol drwy'r cwrs bywyd*

- Sgwrs [a chefnogaeth] gyhoeddus ar heneiddio o oed cynnar - camau bywyd, gwneud cynlluniau, ymddeoliad ar gamau gwahanol mewn bywyd, 30au, 40au 50au.
- Dealltwriaeth gyffredin o sut rydym yn heneiddio'n dda yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar y boblogaeth hŷn - oedrannau a chamau ac atal - addysg gynnar a ffordd o fyw iach (deiet, ymarfer corff, dibyniaeth ar gyffuriau etc.).
- Safleoedd ar y cyd ar gyfer cartrefi gofal i'r henoed a chanolfannau i blant ifanc.
- Dinas sy'n Ystyriol o Oed/Dinas a Sir sy'n Ystyriol o Dementia (y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector).
- Anghenion tai i'r henoed, opsiynau hyblyg, addasiadau etc. a help i bobl hŷn symud i lety priodol, byw annibynnol ac a rennir, cyfleusterau a rennir, lleihau unigrwydd etc.
- Angen opsiynau cludiant cynaliadwy cynhwysfawr da fel y gall pobl aros yn symudol - cludiant cyhoeddus, llwybrau beicio diogel etc.
- Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, rhannu sgiliau, mentora etc.
- Angen mynediad i fannau gwyrdd ar gyfer pob oed (helpu pobl i gadw'n heini ac yn iach, cynnwys mannau gwyrdd yn yr holl gynlluniau/ddatblygiadau).
- Mae rhwydweithiau da gan bobl hŷn ac mae ganddynt amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd.
- Cyflogi pobl hŷn.
- Cynyddu'r oed y mae pobl oedrannus yn mynd i gartrefi i'r henoed 5 mlynedd.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?

## 2.12 NEWID YN YR HINSAWDD A LLEIHOU CARBON

Daeth y sylwadau canlynol i'r amlwg o'r drafodaeth ar newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon. Mae'n amlwg bod gan gyfranogwyr ddealltwriaeth dda o ymyriadau i leihau carbon. Ydyn nhw yr un mor ymwybodol o effeithiau posib hinsawdd sy'n newid a heriau addasu ar gyfer hyn? (Gweler adran 2.16 yn nes ymlaen). Mae hwn yn faes lle gallai'r BGC gydlyn cydweithio ar asedau adeiledig a naturiol ledled Abertawe. Gall diogelu cymunedau diamddiffyn rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd hefyd fod yn fater allweddol y gall y BGC ei ystyried.

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar gadernid hinsawdd a lleihau carbon**

*Gweithio ar gadernid hinsawdd ar gyfer cymunedau sy'n agored i berygl a datblygu isadeiledd carbon isel.*

Y BGC i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd/leihau carbon ar gyfer y BGC ei hun ac ym mhob sefydliad: gan gynnwys:

Cadernid hinsawdd:

- Cydnabod bod newid yn digwydd/yn mynd i ddigwydd a pharatoi ar ei gyfer.
- Mae rhannu adnoddau a hunaniaeth yn effeithio ar asiantaethau ar y cyd
- Datblygu a mabwysiadu cynllun isadeiledd gwyrdd
- Cynllunio rhag argyfyngau [tymor hir] ar gyfer newid yn yr hinsawdd e.e. lefelau dŵr yn codi, mesurau cydnerthu rhag llifogydd,
- Mapio ceubyllau carbon a manau storio carbon, eu diogelu a'u cadw

Lleihau Carbon:

- Dylunio gwasanaethau cyhoeddus i'w gwneud yn fwy hygyrch a lleihau'r angen am wasanaethau neu'r angen i bobl deithio.
- Annog a chefnogi dulliau cludiant mwy cynaliadwy e.e. cerdded, beicio a gwneud gwasanaethau'n fwy cynaliadwy
- Gwell trefniadau cludiant i leihau ôl troed carbon
- Dylai holl sefydliadau'r sector cyhoeddus h.y. ystâd y sector cyhoeddus, groesawu mesurau lleihau carbon, adeiladau a chludiant carbon isel etc.
- Hyrwyddo Abertawe fel lle ar gyfer ynni amgen
- Dylai holl adeiladau'r sector cyhoeddus fodloni'r safonau effeithlonrwydd ynni uchaf ac ymgorffori dyfeisiau ynni adnewyddadwy micro lle bynnag y bo modd.
- Darparu cefnogaeth ac ysgogiadau ar gyfer polisïau a dyfeisiau ynni adnewyddiadau

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?

## 2.13 TAI

Daeth y sylwadau canlynol i'r amlwg o'r drafodaeth ar Dai yn y gweithdai. Pa rai o'r arsylwadau/ymyriadau hyn sydd eisoes yn cael eu cynnwys yn strategaethau tai presennol y cyngor, LCC a Chymdeithasau Tai a'r sector gwirfoddol? Lle gallai gweithgarwch y BGC ychwanegu gwerth at ymyriadau presennol.

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar Dai**

#### *Ymagwedd gydlynol at dai priodol i bawb*

- Edrych ar y ffyrdd y byddwn yn eu defnyddio i ymdrin â goblygiadau diwygio lles ar allu pobl ifanc i gael mynediad i dai yn Abertawe (e.e. effaith Credyd Cynhwysol ar greydau tai.) Sut gallwn liniaru ar y cyd?
- Trafodaeth ehangach ar yr hyn yw tai fforddiadwy.
- Cynyddu cyfleoedd ac asesu anghenion y dyfodol o fewn mynediad i gyllid a chronfeydd pensiwn.
- Darpariaeth tai sector cyhoeddus/trydydd sector - amrywiaeth cynyddol o gartrefi e.e. HMO Byw â Chymorth.
- Mynediad i dai (LCC y cyngor) i bobl sengl dan 35 oed  
Cartrefi i bobl dan 25 oed.
- Hyrwyddo rheoli rhenti a moeseg landlordiaid yn y sector preifat.
- Adeiladu a phrynu mwy o gartrefi ar gyfer tai cymdeithasol.
- Mae bygythiad i gydlyniant cymunedol lle na chaiff tai eu rheoli'n fedrus.
- Mwy o gefnogaeth i deuluoedd diamddiffyn droi ati sydd o fudd i'r teulu cyfan.
- Ailddefnyddio eiddo gwag.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer hunanadeiladu a thai effaith isel.
- Caniatáu hunan adeilad yn y gymuned neu ddarparu ysgogiadau ar gyfer hyn.
- Dylai datblygiadau tai weithio law yn llaw â theithio llesol.
- Sicrhau bod cartrefi newydd yn cynnwys man gwyrdd (yn helpu gyda chadernid ecosystemau ac amrywiaeth o ganlyniadau iechyd).
- Dinas lle mae gan bawb gartref a tho uwch ei ben.
- Adeiladu cartrefi mwy diogel a fforddiadwy gan sicrhau eu bod yn wirioneddol fforddiadwy gan ystyried cyflogau lleol etc.
- Mesur yr angen am dai fforddiadwy a'r BGC i weithredu ar y cynllun er mwyn diwallu'r angen hwn.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?

## 2.14 **BIOAMRYWIAETH**

Daeth y sylwadau canlynol i'r amlwg o'r drafodaeth ar fioamrywiaeth yn y gweithdy partneriaeth. Amlygodd trafodaethau yn y grŵp partneriaeth y rôl ganolog y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae ym maes lles ar draws Abertawe. Pa weithgarwch BGC allai wella dealltwriaeth o wasanaethau ecosystemau Abertawe, gan gynnwys bioamrywiaeth, a sut cânt eu rheoli?

Ar gyfer pa rai o'r materion hyn y gallai'r BGC ddatblygu amcanion ar gyfer gweithredu ar y cyd?

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar Fioamrywiaeth**

#### *Ymagwedd gydlynol at wella bioamrywiaeth*

- Cynnal a gwella bioamrywiaeth:
  - mae gan fywyd gwyllt 'werth cynhenid' y tu hwnt i werth fel adnodd naturiol ar gyfer defnydd dynol,
  - hanfodol i wasanaethau ecosystemau iach,
  - poblogaethau llawer o rywogaethau wedi dirywio - angen gweithredu ar frys,
  - nod Deddf LICD 'Cymru gydnherth' a Deddf yr Amgylchedd Cymru.
- Oes angen prosiect bioamrywiaeth blaenllaw yn Abertawe? Ailgyflwyno rhywogaethau eiconig ac adfer cynefinoedd.
- Coridor gwyrdd - mynediad i fannau gwyrdd.
- Mapio darpariaeth gwasanaethau ecosystemau ar draws y sir.
- Annog datblygiad isadeiledd gwyrdd yn yr ystâd gyhoeddus ac mewn gwasanaethau cyhoeddus.
- Mannau gwyrdd - parciau, gerddi, traethau.
- Gwreiddio isadeiledd gwyrdd ar draws y sir.
- Sicrhau bod yr holl gyrff cyhoeddus yn ymwybodol o'u dyletswydd bioamrywiaeth statudol ac yn cydweithio i'w chyflawni - y BGC i gefnogi hyn.
- Angen cydweithio i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy.
- Atal colli rhywogaethau a dechrau eu hadferiad o 2020 ymlaen, yn unol â tharged LIC.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?

## 2.15 SUT RYDYM YN GWEITHIO GYDA'N GILYDD (gweithio ar y cyd, dysgu am ein gilydd a rhoi llais i'r gymuned)

Daeth y sylwadau canlynol i'r amlwg o'r drafodaeth a gafwyd yn y gweithdai ar weithio ar y cyd, dysgu am ein gilydd a 'rhoi llais i'r gymuned'. Roedd cyfranwyr yn yr holl weithdai'n awyddus i ddefnyddio'r Ddeddf a'r cynllun fel catalydd ar gyfer gweithio mewn ffordd fwy cyd-gynhyrchiol yn Abertawe. Mae'r arsylwadau hyn yn awgrymu bod cryn dipyn o gyfle i wneud hyn.

### **Arsylwadau o weithdy'r BGC ar 'sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd'**

*Deall yr hyn sydd gan bartneriaid i'w gynnig, clywed llais y gymuned a nodi lle gall gweithredu ar y cyd wneud y gwahaniaeth mwyaf.*

- Gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae eraill yn ei wneud.
- Sicrhau bod amcanion yn cyd-fynd â rhai'r BGC a rhai ei gilydd
- Mabwysiadu fframweithiau/dulliau a rennir ar gyfer cytuno ar weithredu ar y cyd, ei ysgogi a'i gyflawni, gan gynnwys:
  - rhannu asedau
  - protocol stadau ar y cyd
  - arweiniad cynllunio ar y cyd i helpu i gyfeirio/lunio isadeiledd newydd/prosiectau datblygu
  - gweithio ar Ddinas Diwylliant 2021
  - cynllunio amlgenhedlaeth
  - cydleoli gwasanaethau/cyfleusterau a rennir
  - rhannu ystadegau/data â phrotocolau rhannu data cadarn, ymddiriedus
  - cyd-ariannu swyddi a chyllidebau sy'n pontio sefydliadau
  - asesu ar y cyd/asesu effaith ar y cyd
  - fframweithiau perfformiad ar y cyd ar flaenoriaethau'r BGC - nid camau gweithredu unigol yn unig
  - adeiladu gallu ar gyfer cydgynhyrchu
  - hyfforddiant dan arweiniad y BGC
- Cyflawni cyllidebau ar y cyd erbyn 2021
- Pennu amcanion sy'n seiliedig ar bum ffordd o weithio
- Llais a rheolaeth - gwrando ar bobl, deall eu hanghenion, rhoi newid ar waith, rhoi adborth
- Mae llais yn bwysig os gall ddylanwadu ar/newid polisi/ymddygiad - gwaith Llais y Gymuned
- Mae hunaniaeth sefydliadol yn effeithio ar eich llais. Beth yw llais y BGC? Sut rwy'n gwybod eich bod wedi gwrando? Cadw mewn cysylltiad a gwerthfawrogi mewnbyn a chyfranogaeth.

Cwestiwn allweddol i'r BGC ei ystyried yw p'un o'r rhain y dylid ei ddatblygu fel amcanion i weithredu ar y cyd arnynt?

## 2.16 TUEDDIADAU YN Y DYFODOL

Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n ofynnol i BGC a sefydliadau cyhoeddus ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei waith - mae hyn yn cynnwys cydnabod ac archwilio materion adnoddau rhwng cenedlaethau'r presennol a rhai'r dyfodol.

Er mwyn datblygu ei syniadau am hyn, aeth Grŵp Craidd y BGC ati i archwilio tueddiadau'r dyfodol fel rhan o weithdy DASA a gynhaliwyd ym mis Mai 2017. Defnyddiwyd gwybodaeth am hyn ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol LIC<sup>5</sup> yn y gweithdai a gynhaliwyd ar 3 ac 11 Gorffennaf i ysgogi trafodaeth ynghylch pa rai o'r materion hyn yr oedd angen i'r BGC ddefnyddio ymagwedd strategol ar eu cyfer; a lle'r oedd angen i'r BGC gael gwell dealltwriaeth o effeithiau posib y tueddiadau hyn yn Abertawe dros y tymor hir. Er y cafwyd rhestr hir o faterion posib i'r BGC ymdrin â hwy yn strategol yn sgîl y trafodaethau, roedd yn amlwg o'r trafodaethau fod angen gwell dealltwriaeth gan y BGC o'r meysydd canlynol fel rhan o gynllunio lles yn Abertawe:

- Brexit
- Poblogaeth sy'n heneiddio
- Gwasanaethau ecosystem a bioamrywiaeth
- Mudo
- Tai
- Tlodi (bwyd a thanwydd)
- Trafnidiaeth
- Effeithiau newid yn yr hinsawdd

Dylai'r BGC ystyried amcan penodol i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu ei ddealltwriaeth o effaith bosib y tueddiadau hyn yn y dyfodol ar Abertawe a'i chymunedau, a dinasyddion y dyfodol. Gallai hyn gynnwys cynllunio sefyllfaoedd, cynnwys y cyhoedd, academyddion ac eraill wrth ystyried canlyniadau tueddiadau'r dyfodol a chamau gweithredu ataliol posib gan y BGC a'i bartneriaid.

## 3. DADANSODDIAD AC ARGYMHELLION

3.1 Mae'r cyfraniad gan bartneriaid yn Abertawe i drafod blaenoriaethau posib ar gyfer y cynllun lles wedi bod yn graff ac wedi cynnwys amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn. Mae nodi amcan penodol yn waith sydd ar y gweill. Fodd bynnag, yr hyn sy'n glir yw bod gan bartneriaid lawer iawn o *uchelgais* ar gyfer y cynllun a gweithgareddau cysylltiedig partneriaid er mwyn newid yn sylweddol waith ar y cyd ar les yn Abertawe. Roedd yn glir o'r holl weithdai fod Deddf LICD yn cynnig cyfle i fyfyrion ar ymagweddau presennol a'u gwella, ac i ddatblygu gwaith newydd sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o heriau lles.

3.2 Wrth gychwyn ar y comisiwn hwn, roedd yn glir y byddai angen creu consensws ar ddiben y cynllun, ei uchelgais, sut roedd yn ystyried tueddiadau'r dyfodol a beth fyddai ei ffocws. Mae'r broses hyd yn hyn wedi helpu i adeiladu rhywfaint o gonsensws am yr hyn a allai fod o'r pwys mwyaf. Ond mae angen i'r BGC wneud mwy o waith i flaenoriaethu gwaith posib y gallant ei wneud gyda'i gilydd, gwaith a allai ychwanegu'r gwerth mwyaf at gymunedau yn Abertawe. Mae'r adrannau blaenorol yn darparu arwyddion clir ynghylch lle gallai gwaith ar y cyd ychwanegu gwerth at ymagweddau presennol.

3.3 Argymhellir yn gryf fod BGC Abertawe'n defnyddio ymagwedd syml a thrwyadl at ddewis amcanion a chamau drwy ddefnyddio'r data a gasglwyd hyd yn hyn. Dylent

<sup>5</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/future-trends/?skip=1&lang=cy>

ystyried pob un o'r 10 thema o 2.6 i 2.10 a thafod amcanion posib trwy ddilyn y camau canlynol:

- a) archwilio, gan ddefnyddio'r deunydd a gasglwyd, sut gall gweithio ar y cyd yn y BGC ychwanegu gwerth yn y ffordd orau dan bob thema.
- b) nodi amcan penodol y gellir ei ddatblygu i ddisgrifio'r gweithgaredd hwn
- c) gwirio ddwywaith a yw'r amcan hwn yn ymdrech ar y cyd wirioneddol (yn hytrach na rhestru'r hyn sy'n cael ei wneud eisoes gan bartneriaid unigol)
- ch) defnyddio'r ymagwedd diagram ysgogwr (a data o'r asesiad lles) i ddeall yr hyn sy'n dylanwadu ar y mater arbennig hwn i fireinio'r amcan gan gynnwys:
  - effaith tueddiadau ar gymunedau a dinasyddion y dyfodol a;
  - nodi bylchau data y mae angen i'r BGC weithio arnynt i ddeall y mater.
- d) ystyried sut gellir cyflwyno'r amcan hwn gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio

dd) ystyried sut mae'r amcan hwn yn cyfrannu at nodau lles cenedlaethol

Dylai'r broses hon alluogi'r BGC, ar bob cam, i 'gwtogi'r' meysydd ymdrech ar y cyd posib ac adeiladu rhesymeg cryf dros ddewis ei amcanion e.e. os na all nodi ymdrech ar y cyd yn a) neu b) yna dylai symud ymlaen at thema arall; os yw'n sylweddoli dan c) nad yw'n amcan ar y cyd, yna dylent symud ymlaen eto.

3.4 Byddai'r ymagwedd hon yn darparu tystiolaeth dros ddewis pa feysydd gweithredu ar y cyd yw'r pwysicaf a lle byddai ymdrech y BGC yn ychwanegu'r gwerth mwyaf. Byddai'n glir i bartneriaid a rhanddeiliaid ac yn darparu tystiolaeth gadarn i'r comisiynydd ac eraill fod yr amcanion a ddewiswyd wedi cael eu pwysu a'u mesur yn drylwyr ar ôl ymgynghori helaeth.

3.5 Y gobaith yw y bydd y dadansoddiad byr hwn yn darparu trosolwg i BGC Abertawe o'i waith hyd yn hyn, yn pwysleisio'r cynnydd mae wedi'i wneud wrth ddechrau canolbwyntio ei waith ar weithredu ar y cyd ac yn darparu rhywfaint o fewnwelediad i'w waith i ddatblygu'r cynllun.

**Dr Alan Netherwood**

**Netherwood Sustainable Futures**

**20 Gorffennaf 2017**



## **ATODIAD A**

### **A: Ymarferion gyda phob grŵp**

#### **Grŵp Craidd:**

1. Beth yw diben y cynllun?; strategol; gweithredol; system; sefydliadol;
2. Pa mor uchelgeisiol ydych chi am fod? economaidd; amgylcheddol; diwylliannol; cymdeithasol.
3. Gweithredu ar y cyd neu fwy o'r un peth? Gweithgarwch sefydliadol unigol; gwaith partneriaeth gwell; gwaith BGC newydd; dylanwadu ar eraill (rhanbarthol a chenedlaethol?)

#### **CCGA Abertawe:**

1. Abertawe – Yn Addas i'r Dyfodol? (archwilio tueddiadau'r dyfodol)
2. Blaenoriaethau strategol ar gyfer y gymuned a'r sector gwirfoddol?
3. Sut gall y gymuned a'r sector gwirfoddol gyfrannu at flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg?

#### **Grŵp Partneriaeth BGC Abertawe**

1. Abertawe – Yn Addas i'r Dyfodol? (archwilio tueddiadau'r dyfodol)
2. Beth mae angen ei wneud ar y cyd ar flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg?
3. Beth fyddai'n amcan da ar gyfer pob blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg a beth gallwch chi ei gyfrannu?